| | |
|---|---|
| | Allweddol.<br><br>• Yn llunio ac yn darparu pecynnau atal ac ymyrraeth gynnar pwrpasol i ddiwallu anghenion unigolion.<br><br>• Yn cofnodi ac yn cadw cofnodion achos. |

| Dyletswyddau a chyfrifoldebau |
|---|

**Dyletswyddau gofal a chymorth**

- Ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau yn unol â'r cyfarwyddyd, gan gynnwys tasgau dyddiol e.e paratoi prydau, golchi dillad, trefnu gweithgareddau.

- Gweithio fel rhan o dîm a deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau ar gyfer pob sifft.

- Ymroi i hyrwyddo, cyfranogi, a sicrhau darpariaeth o safon o ran gofal corfforol, hylendid, diogelwch a lles pob plentyn a pherson ifanc.

- Cofnodi ac ymgymryd â thasgau gofal personol yn unol â chanllawiau'r cynllun gofal a chymorth.

- Arsylwi, asesu a monitro iechyd, datblygiad a lles emosiynol y bobl ifanc, gan gychwyn camau priodol pan fo angen.

- Wrth weinyddu meddyginiaeth, sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer diogelu, monitro a rheoli meddyginiaeth yn cael ei dilyn yn briodol. Pan fo angen, bod yn dyst wrth i aelod uwch o'r tîm roi meddyginiaeth.

- Lle bo'n briodol, cynorthwyo â'r gwaith o lunio asesiad o anghenion a chynlluniau ar gyfer pobl ifanc gan weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gofalwyr pobl ifanc i gyflawni nodau ac amcanion cynlluniau'r bobl ifanc.

- Trefnu, annog a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a hamddenol sy'n bodloni anghenion a dymuniadau'r plant a'r bobl ifanc yn y cartref, a sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn cael eu hannog i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau cymdeithasol, ac annibyniaeth sy'n briodol i'w hoedran.

- Cadw cofnodion achos, gan gynnwys crynhoi adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd cynllunio, adolygiadau ac unrhyw gyfarfodydd eraill fel y bo'n briodol.

- Bod yn gyfrifol am gefnogi plant a phobl ifanc trwy ddarparu ymyrraeth ystyrlon sy'n cefnogi model gofalu ataliol a therapiwtig e.e. arferion sy'n ystyriol o drawma. Cynorthwyo plant a phobl ifanc i gynnal a gwella eu hanghenion lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol.

- Defnyddio dull Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (Positive Behavior Support) a thechnegau Team Teach yn unol â'r cyfarwyddyd yn y cynllun gofal a chymorth.

**Sicrhau Ansawdd**

- Annog hyblygrwydd a gwaith tîm ymhlith y gweithlu a bod yn barod i weithio mewn Cartrefi Gofal eraill – Cartrefi Preswyl i Blant os bydd angen.

- Hyrwyddo a pharchu hawliau'r plentyn neu'r person ifanc i breifatrwydd, urddas, a dewis.
- Cefnogi gofynion 'Mwy na geiriau': Fframwaith Strategol ar gyfer hybu'r iaith Gymraeg o fewn gwasanaethau Iechyd, Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

